Y Comisiwn Etholiadol

Cyflwyniad PG a GI

Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid

Mae'r ddogfen hon i drysoryddion pleidiau cofrestredig ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon sy'n dymuno cael cyflwyniad i'w responsibilities.

Cynnwys:

Cyflwyniad i'ch cyfrifoldebau

Cynnal manylion eich plaid

Rhoddion a benthyciadau

Cyfrifoldebau cyfrifeg blynyddol

Cyfrifoldebau gwariant ymgyrchu

Termau ac ymadroddion yr ydym yn eu defnyddio

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn isafswm arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y canllaw hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein hymagwedd ar orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol gallech chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch gael mwy o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid

I bwy maeʼr ddogfen hon:

Trysoryddion y blaid ganolog a thrysoryddion unedau cyfrifeg.

Mae'n cwmpasu:

- Cyflwyniad lʼch prif gyfrifoldebau
- Cynnal manylion eich plaid
- Cyfrifoldebau rhoddion a benthyciadau
- Cyfrifoldebau cyfrifeg flynyddol
- Cyfrifoldebau gwariant ymgyrchoedd

Dogfennau cysylltiedig:

- Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol
- Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol
- Trosolwg o wariant ymgyrch bleidiol

2

Crynodeb

Mae'n hanfodol i ddemocratiaeth iach i bleidiau ac ymgyrchwyr gwleidyddol allu datblygu polisi, ymgyrchu a throsglwyddo eu neges i bleidleiswyr. Mae codi arian a chyllid pleidiau yn allweddol i hyn.

Fel trysorydd plaid cofrestredig, rydych yn gyfrifol am gydymffurfiaeth eich plaid â'r rheoliadau ariannol o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Mae'r cyflwyniad hwn yn rhoi amlinelliad sylfaenol i chi o'ch cyfrifoldebau a lle y gallwch gael mwy o wybodaeth.

Cyflwyniad

Mae bod yn drysorydd cofrestredig plaid wleidyddol yn gyfrifoldeb pwysig. Rydych yn rheoli cyllid eich plaid ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Gall swnio'n frawychus, ond gyda threfn dda, cadw cofnodion yn drylwyr a gwybodaeth ddiweddar o'r rheolau, gall fod yn rôl llawn boddhad.

Mae'r canllaw cychwynnol hwn yn egluro'n gryno eich cyfrifoldebau sylfaenol.
Mae'n cwmpasu trysoryddion y blaid ganolog a thrysoryddion unedau cyfrifeg.

Rydych yn drysorydd plaid ganolog os ydych wedi'ch cofrestru gyda ni fel trysorydd ar gyfer:

- plaid heb unrhyw unedau cyfrifeg
- sefydliad canolog plaid gydag unedau cyfrifeg

Rydych yn drysorydd uned cyfrifeg os cawsoch eich penodi yn un gan eich plaid a chafodd eich manylion eu rhoi i ni.

Mae uned gyfrifeg yn adran o'r blaid sydd wedi'i chofrestru gyda ni fel un sy'n gyfrifol am ei chyfrifon ariannol ei hun.

4

Eich meysydd cyfrifoldeb

Cynnal manylion eich plaid

Fel trysorydd y blaid ganolog, rhaid i chi ddweud wrthym pan fydd unrhyw rai o'r canlynol yn newid:

- enw neu gyfeiriad unrhyw swyddog y blaid sydd wedi'u cofrestru gyda ni, yn cynnwys unrhyw swyddogion unedau cyfrifeg
- cyfeiriad pencadlys y blaid neu unrhyw uned gyfrifeg
- enw unrhyw uned gyfrifeg

Rhaid i chi hefyd anfon atom gadarnhad blynyddol o fanylion eich plaid. Os na fyddwch yn gwneud hyn, gallem dynnu eich plaid oddi ar y gofrestr.

Am fwy o wybodaeth ar gynnal manylion eich plaid a'r dyddiadau cau ar gyfer dweud wrthym am newidiadau, gweler ein gwefan.

Rhoddion a benthyciadau

Fel trysorydd y blaid ganolog rydych yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod unrhyw fenthyciadau a rhoddion y mae eich plaid yn eu derbyn yn cael eu gwirio, eu cofnodi a'u hadrodd lle y bo'n briodol.
- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gellir derbyn y rhoddion a'r benthyciadau hyn.
- Adrodd rhoddion a benthyciadau penodol i ni, y Comisiwn Etholiadol.

Fel trysorydd uned gyfrifeg nid ydych yn gyfrifol o dan PPERA am drin rhoddion a benthyciadau. Fodd bynnag, dylech ddilyn gweithdrefnau eich plaid bob amser. Rhaid i chi hefyd ddarparu gwybodaeth berthnasol i drysorydd y blaid ganolog yn ôl ei gais.

Am fwy o wybodaeth, gweler y dogfennau hyn:

- Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol
- Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol

Cyfrifon blynyddol

Fel trysorydd y blaid ganolog neu uned gyfrifeg rydych yn gyfrifol am:

- Gadw cofnodion clir a chywir o'ch cyfrifon i ddangos sefyllfa ariannol wirioneddol eich plaid neu uned gyfrifeg.
- Cyflwyno eich cyfrifon blynyddol i ni.

Fel trysorydd uned gyfrifeg, mae angen i chi gyflwyno eich cyfrifon i ni dim ond os yw incwm neu wariant eich uned yn fwy na £25,000.

Am fwy o wybodaeth am ddatganiadau cyfrifon, gweler ein gwefan.

Pryd mae angen i chi gyflwyno eich cyfrifon?

A yw incwm/gwariant eich plaid/uned yn £250k neu'n is?

Adroddwch o fewn pedwar mis i ddiwedd eich blwyddyn ariannol.

A yw incwm/gwariant eich plaid/uned dros £250k?

Adroddwch o fewn chwe mis a saith diwrnod i ddiwedd eich blwyddyn ariannol, gyda thystysgrif archwiliwr annibynnol

6

Gwariant ar ymgyrchoedd mewn etholiadau

Fel trysorydd y blaid ganolog rydych yn gyfrifol am:

- holl wariant ymgyrchu'r blaid mewn etholiadau

Mae hyn yn cynnwys:

- awdurdodi gwariant ymgyrchu
- cadw cofnodion ac anfonebau/derbynebau gwariant ymgyrchu
- cyflwyno eich ffurflen wariant, anfonebau/derbynebau ac adroddiad archwiliwr

Gallwch benodi dirprwy drysoryddion i'ch helpu gyda gwariant ymgyrchu. Gallech gael hyn yn ddefnyddiol os yw eich plaid yn ymladd llawer o seddau. Rhaid i chi anfon Ffurflen RP5 atom i gofrestru dirprwyon.

Nid yw gwariant ymgyrchu pleidiau yn cynnwys treuliau ymgeiswyr unigol, sy'n gyfrifoldeb yr asiant etholiad.

Pwysig

Os oes gan eich plaid swyddog ymgyrchoedd wedi'i gofrestru gyda ni, y nhw fydd yn gyfrifol am wariant ymgyrchu, nid chi.

Am fwy o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o wariant ymgyrchu pleidiau

Pryd y mae angen i chi anfon eich ffurflen atom?

Gwariant ymgyrchu yn £250k neu'n is?	Gwariant ymgyrchu dros £250k?
Adroddwch o fewn tri mis i ddiwedd yr etholiad.	Adroddwch o fewn chwe mis i ddiwedd yr etholiad, gyda thystysgrif archwiliwr annibynnol

Sut y gallwn ni helpu

Mae mwy o wybodaeth yn y dogfennau canllaw yr ydym wedi'u hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein cyfres gyfan o ganllawiau ac adnoddau diweddar ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch gysylltu â ni hefyd ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau ebost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch ar bob cyfrif.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Dewch i ymweld â ni yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – ebostiwch ni yn:
pef@electoralcommission.org.uk

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

Ebost: publications@electoralcommission.org.uk